



Ein cyf/Our ref MA/VG/1550/21

Elin Jones AS
Llywydd
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

8 Ebrill 2021

Annwyl Elin,

Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 5) 2021

Yn unol ag adran 11A(4) o Ddeddf Offerynnau Statudol 1946 rwy'n eich hysbysu y bydd yr Offeryn Statudol hwn yn dod i rym lai na 21 diwrnod ar ôl iddo gael ei osod. Amgaeir y Memorandwm Esboniadol sy'n cyd-fynd â'r Rheoliadau er gwybodaeth ichi.

Mae'r Offeryn Statudol hwn yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020.

O 15 Chwefror, cyflwynodd Llywodraeth Cymru waharddiad ar deithwyr sy'n cyrraedd Cymru os ydynt wedi bod mewn "gwlad rhestr goch" yn y 10 niwrnod blaenorol. Rhaid iddynt gyrraedd un o'r pyrth mynediad dynodedig yn Lloegr (neu'r Alban) ac aros yno o dan amodau ynysu rheoledig am 10 niwrnod cyn cael teithio i Gymru. Hefyd, ar gyfer y rheini sy'n cyrraedd o "wledydd ar y rhestr oren", cyfyngwyd ar yr esemptiadau rhag y gofynion ynysu fel bod gofyn i berson ynysu am 10 niwrnod ond y caiff adael y man ynysu am gyfnod cyfyngedig i weithio.

Mae'r Rheoliadau hyn yn ychwanegu Bangladesh, Kenya, Pacistan ac Ynysoedd Philippines at y rhestr goch o wledydd. Mae'r Rheoliadau hyn hefyd yn caniatáu i gludwyr sydd wedi bod mewn gwlad "rhestr goch" ddod i mewn i Gymru; yn cyflwyno trefniant profi pwrpasol ar gyfer cludwyr o'r Deyrnas Unedig a'r rhai nad ydynt o'r DU ac yn caniatáu i fyfyrwyr ysgolion preswyl ynysu yn yr ysgol os ydynt wedi cyrraedd o wlad "rhestr goch".

Yn ogystal, mae'r Rheoliadau hyn yn caniatáu i berson adael y man ynysu ar ôl 14 diwrnod os nad oes canlyniad prawf wedi'i ddychwelyd o'r labordy.

Trwy beidio â chydymffurfio â'r confensiwn 21 diwrnod, bydd modd i'r Rheoliadau hyn ddod i rym cyn gynted ag y bo modd; a pharhau â'r dull pedair gwlad o ymdrin â theithio

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru
Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

rhyngwladol. O ystyried y newid yn y dystiolaeth ynglŷn â'r risg mewn perthynas â'r clefyd hwn, ystyrir bod hyn yn angenrheidiol ac yn gyfiawn yn yr achos hwn.

Oherwydd natur frys y Rheoliadau, ni chynhaliwyd ymgynghoriad.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd, Mick Antoniw AS, Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Siwan Davies, Cyfarwyddwr Busnes y Senedd, Sian Wilkins, Pennaeth Gwasanaethau'r Siambr a Phwyllgorau a Julian Luke, Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth.

Yn gywir,

A handwritten signature in black ink that reads "Vaughan Gething". The signature is written in a cursive, flowing style.

Vaughan Gething AS/MS

Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services